Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

23 Mawrth 2022

Annwyl Mark

Chweched Protocol i'r Confensiwn ar Adeiladu a Gweithredu Adweithydd Fflwcs Niwtron Uchel Iawn (y DU-Ffrainc-yr Almaen)

Yn ein cyfarfod o 14 Mawrth 2022 ystyriwyd y cytundeb rhyngwladol rhwng y DU, Ffrainc a'r Almaen, Chweched Protocol i'r Confensiwn ar Adeiladu a Gweithredu Adweithydd Fflwcs Niwtron Uchel Iawn.

Fel y gwyddoch bydd y cytundeb yn ymestyn y trefniadau presennol rhwng y DU, Ffrainc a'r Almaen 10 mlynedd rhwng 2024 a 2033 o ran rhedeg y sefydliad Istitut Laue–Langevin (ILL), sef cyfleuster ymchwil sy'n arwain y byd ym maes ymchwil wyddonol gan ddefnyddio niwtronau. Mae wedi'i leoli yn Grenoble, Ffrainc.

Yn ystod ein trafodaethau ar y cytundeb hwn, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ganfod a ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r cytundeb hwn; a'i hasesiad o'r effaith, os o gwbl, ar sectorau ymchwil, datblygu ac arloesi Cymru.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb erbyn 20 Ebrill 2022.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament